



## Astudiaeth achos

# Gwrthdaro buddiannau

## Is-gwmnïau masnachu

Mae'r enghraifft hon yn disgrifio'r ymagwedd y dylai ymddiriedolwyr ei mabwysiadu, yn unol â'n canllaw, pan fyddant yn wynebu problemau gwrthdaro buddiannau cyffredin a all godi gydag is-gwmnïau masnachu elusennau pan fydd y cyfan neu'r rhan fwyaf o ymddiriedolwyr yr elusen hefyd yn gyfarwyddwyr yr is-gwmni masnachu.

Er ei fod yn seiliedig ar ein profiad ni o'r problemau hyn, nid yw'n ymwneud ag unrhyw achos penodol rydym wedi delio ag ef.

## Sefyllfa

Mae gan yr elusen anghorfforedig hon is-gwmni masnachu ym mherchnogaeth lwyr sy'n gwerthu nwyddau i godi arian ar gyfer ei gwaith elusennol. Mae pob un o'r ymddiriedolwyr yn gyfarwyddwyr yr is-gwmni.

Cafodd y Comisiwn gŵyn oherwydd roedd un o'r ymddiriedolwyr elusen, heb awdurdod, yn derbyn taliadau am ei waith yn yr is-gwmni masnachu.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd i'r elusen hefyd wedi dangos, er bod hyn wedi gweithio'n dda yn y gorffennol, roedd perfformiad yr is-gwmni masnachu wedi dechrau dioddef. Ar yr adeg pan benderfynodd y Comisiwn ymyrryd, roedd yr ymddiriedolwyr ar fin cwrdd i benderfynu beth i'w wneud am yr is-gwmni masnachu.

Nid oedd dogfen lywodraethol neu ddarpariaethau polisi gan yr elusen y gallai'r ymddiriedolwyr eu dilyn i roi sylw i'r gwrthdaro buddiannau.

## Trosolwg

Mae nifer o elusennau yn gweithredu is-gwmnïau masnachu sydd ym mherchnogaeth neu reolaeth y rhiant gwmni. Fel arfer maent wedi'u sefydlu gan elusennau fel ffordd o godi arian, ond gallant hefyd helpu i warchod yr elusen rhag risg. Mae'n rhaid i unrhyw gyllido gan yr elusen ar gyfer yr is-gwmni masnachu fod er lles gorau'r elusen a rhaid bod modd ei gyfiawnhau fel buddsoddiad o asedau'r elusen.

Mae'n gyffredin i rai o ymddiriedolwyr rhiant elusen fod yn gyfarwyddwyr is-gwmni hefyd er mwyn i'r ymddiriedolwyr elusen allu monitro perfformiad yr is-gwmni a sicrhau ei fod yn cael ei reoli er lles yr elusen.

Mae'r enghraifft hon yn dangos er ei bod hi'n fater syml yn gyffredinol i gyfarwyddwyr is-gwmni masnachu ei redeg mewn ffordd sy'n gyson â nodau a strategaeth yr elusen, mae rhai penderfyniadau lle bydd buddiannau a blaenoriaethau'r cwmni a'r elusen yn wahanol neu'n groes i'w gilydd. Os nad yw dull llywodraethu'r is-gwmni masnachu yn ddigon annibynnol ar y rhiant gwmni, nid yw'r ymddiriedolwyr mewn sefyllfa dda i fodloni eu dyletswydd gyfreithiol ac osgoi gwrthdaro buddiannau a gweithredu er lles gorau eu helusen yn unig.

## Adnabod gwrthdaro buddiannau

Roedd dau fath o wrthdaro buddiannau yn yr achos hwn roedd angen i'r ymddiriedolwyr eu hadnabod.

Roedd y cyntaf yn ymwneud â thaliad gan yr is-gwmni masnachu i un o'r cyfarwyddwyr. Er bod y taliadau wedi cael eu gwneud gan yr is-gwmni masnachu, roedd hwn yn fath o wrthdaro buddiannau oherwydd:

- roedd y cyfarwyddwr hefyd yn ymddiriedolwr elusen
- diben yr is-gwmni masnachu yw cefnogi'r elusen
- roedd y penderfyniad i dalu'r cyfarwyddwr wedi creu gwrthdaro rhwng budd personol y cyfarwyddwr a buddiannau'r elusen

Roedd yr ail yn ymwneud â dyfodol yr is-gwmni masnachu ac yn effeithio ar yr holl ymddiriedolwyr oherwydd roedden nhw hefyd yn gyfarwyddwyr yr is-gwmni masnachu.

Roedd gwrthdaro teyrngarwch wedi codi oherwydd roedd yr ymddiriedolwyr elusen yn debygol o drafod a phenderfynu materion megis perfformiad gwael yr is-gwmni masnachu ac a allai'r elusen gyfiawnhau cyllido'r cwmni ymhellach neu, er lles yr elusen, a ddylai'r cwmni gael ei ddiddymu neu ei werthu. Yn eu rhinwedd fel cyfarwyddwyr yr is-gwmni gallai ymddiriedolwyr yr elusen fod wedi barnu bod dyletswyddau cystadleuol ganddynt i'r cwmni, a/neu deimlo bod rhwymedigaeth neu deyrngarwch ganddynt i'r cwmni a/neu ei weithwyr.

Roedd gan y cyfarwyddwr cyflogedig fudd personol yn y penderfyniad ynghylch dyfodol y cwmni hefyd, oherwydd gallai'r canlyniad fod wedi penderfynu a oedd ei chyflogaeth yn parhau neu beidio.

## 1. Talu'r cyfarwyddwr - atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar wneud penderfyniadau

### Beth ddylai'r cyfarwyddwr/ymddiriedolwr fod wedi'i wneud

Prif gyfrifoldeb y cyfarwyddwr oedd datgan ei gwrthdaro buddiannau i'r ymddiriedolwyr eraill yn gynnar yn y broses.

### Beth ddylai'r ymddiriedolwyr eraill fod wedi'i wneud

- cyn gwneud eu penderfyniad i dalu'r ymddiriedolwr a'i gydweithiwr, roedd dyletswydd gan yr ymddiriedolwyr eraill i ystyried y gwrthdaro buddiannau a sut i ddileu unrhyw effaith bosibl ar y penderfyniad - gallai hynny fod wedi golygu ystyried dileu'r gwrthdaro buddiannau megis drwy benderfynu cyflogi rhywun nad oedd yn ymddiriedolwr i ymgymryd â'r gwaith cyflogedig, ac felly ni fyddai gwrthdaro buddiannau yn codi

- pe bydden nhw wedi penderfynu nad oedd angen symud y gwrthdaro, dylai'r ymddiriedolwyr fod wedi
  - sicrhau bod awdurdod priodol yn ei le ar gyfer rhoi budd i'r ymddiriedolwr
  - atal y gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar eu penderfyniad drwy ddilyn yr amodau sy'n gysylltiedig ag unrhyw awdurdod i dalu ac unrhyw ddarpariaethau perthnasol yn eu dogfen lywodraethol - mae'n debyg y byddai unrhyw amodau neu ddarpariaethau yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod yr ymddiriedolwr/cyfarwyddwr a effeithir yn tynnu'n ôl o bob agwedd ar y drafodaeth a'r broses gwneud penderfyniad am y taliad - os nad oedd unrhyw fanylebau i'w harwain dylai'r ymddiriedolwyr fod wedi mynnu bod yr ymddiriedolwr â'r gwrthdaro buddiannau yn tynnu'n ôl

## Cofnodi gwrthdaro buddiannau

Dylai'r ymddiriedolwyr fod wedi cadw cofnod ysgrifenedig o'u penderfyniad, gan nodi'r gwrthdaro buddiannau a sut roedd yr ymddiriedolwyr wedi delio ag ef. Byddai hyn yn eu helpu i esbonio a darparu tystiolaeth ar gyfer eu camau gweithredu.

## Beth wnaeth y Comisiwn

Yn yr achos hwn, roedd y Comisiwn wedi cynghori bod talu ymddiriedolwr elusen am wasanaethu fel cyfarwyddwr neu weithiwr is-gwmni masnachol yr elusen heb awdurdod yn dor-ymddiriedaeth. Dilynwyd egwyddorion ein polisiau **ar adfer** ac ar daliadau ymddiriedolwyr heb eu hawdurdodi.

Mae'r enghraifft hon yn dangos bod methu ag adnabod ac ymateb yn briodol i wrthdaro buddiannau yn gallu arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau'r ymddiriedolwyr yn cael eu herio a gellir achosi niwed i enw da'r elusen.

## 2. Dyfodol y cwmni - atal gwrthdaro buddiannau rhag effeithio ar wneud penderfyniadau

### Beth ddylai'r ymddiriedolwyr fod wedi'i wneud

Cyn iddynt allu gwneud eu penderfyniad am ddyfodol yr is-gwmni masnachu roedd gan yr ymddiriedolwyr

- gyfrifoldeb i gydnabod a datgan eu gwrthdaro buddiannau - roedd yr ymddiriedolwr a fu'n gweithio yn yr is-gwmni masnachu wedi'i effeithio gan wrthdaro teyrngarwch a'i budd personol fel rhywun oedd yn cael ei dalu gan y cwmni - roedd cyfrifoldeb ganddi i adnabod a datgan y ddwy agwedd.
- roedd rhaid i'r ymddiriedolwyr weithredu i atal y gwrthdaro teyrngarwch rhag effeithio ar eu penderfyniad er mwyn iddo gael ei wneud er lles gorau'r elusen yn unig - cafodd hyn ei gymhlethu yma oherwydd roedd dwy rôl gan bob un o'r ymddiriedolwyr.
- un ateb posibl oedd i'r ymddiriedolwyr ystyried ailstrwythuro Bwrdd yr is-gwmni masnachu er mwyn cael cworwm o ymddiriedolwyr heb wrthdaro buddiannau i gymryd penderfyniad ar unwaith ynghylch y cwmni masnachu, ac felly gellid atal gwrthdaro buddiannau tebyg rhag effeithio ar wneud penderfyniadau yn y dyfodol

- gallent hefyd fod wedi penderfynu ceisio cyngor arbenigol annibynnol ar ran yr elusen i lywio eu penderfyniad ynghylch sut i weithredu - yn wyneb cysylltiad ffurfiol diweddar pob un o'r ymddiriedolwyr â'r is-gwmni masnachu, byddai hynny wedi eu helpu i osgoi rhoi'r argraffu y gallai'r penderfyniad fod wedi'i ddylanwadu gan y rhai sydd â dyletswyddau a theyrngarwch cystadleuol croes i'r is-gwmni masnachu

## Cofnodi gwrthdaro buddiannau

Fel uchod, dylai'r ymddiriedolwyr gadw cofnod ysgrifenedig o'u penderfyniad, gan nodi'r gwrthdaro buddiannau a sut mae'r ymddiriedolwyr yn delio ag ef.

## Beth wnaeth y Comisiwn

Ar ôl sicrhau bod gweithredoedd a phenderfyniadau'r ymddiriedolwyr wrth ymdrin â gwrthdaro buddiannau yn gyson â'u dyletswyddau i'r elusen, cyngorodd y Comisiwn, er mwyn adnabod yn well a rhoi sylw priodol i unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi yn y dyfodol, dylai'r ymddiriedolwyr lunio polisi gwrthdaro buddiannau ac yn ddelfrydol cynnwys darpariaethau ar gyfer ymdrin â gwrthdaro buddiannau yn eu dogfen lywodraethol.